**Ymweliad â Valletta, Malta, rhwng 13 a 16 Medi 2023**

Diben yr ymweliad hwn oedd cymryd rhan yn y Ddirprwyaeth o Ddeddfwyr i ddigwyddiad EuroPride. Roedd y digwyddiad yn cael ei gynnal yng ngwlad Malta, yn dilyn y cais llwyddiannus a wnaed yn 2020 i Gymdeithas Trefnwyr Pride Ewrop at ddibenion ennill yr hawl i gynnal y digwyddiad yn 2023. Mae Malta wedi bod ar frig mynegai blynyddol ILGA-Ewrop, sef mynegai "Rainbow Europe", yn gyson ers 2015. Rhoddir sgôr rhwng sero a 100 y cant i wledydd, gyda'r sgoriau isaf yn adlewyrchu sefyllfa wael o ran hawliau dynol unigolion LHDTC+, a'r sgoriau uchaf yn adlewyrchu cymdeithas gyfartal.

Mae Malta ei hun yn ganolbwynt arfer da o ran llunio polisïau ac arferion blaengar ar gyfer pobl LHDTC+. Yn 2016, Malta oedd y wlad gyntaf yn yr UE i wahardd 'therapi trosi'. Yn fwy diweddar, mae hefyd wedi gwneud cynnydd o ran sicrhau sail gyfartal ar gyfer rhoi gwaed, datblygu addysg fwy cynhwysol i bobl ifanc, a chyflwyno opsiwn trydydd rhywedd ar gyfer cardiau adnabod a phasbortau.

Teitl y drafodaeth a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn cyntaf yr es i iddo oedd "Lens ar y gymuned LHDTC+ yn Affrica – llwyfan i ddeddfwyr". Trefnwyd y drafodaeth honno gan grŵp y Seneddwyr dros Weithredu Byd-eang. Yn ystod y sesiwn, rhannodd Seneddwyr o Affrica eu profiadau a'u safbwyntiau o ran eirioli dros newid cynhwysol yn eu gwledydd eu hunain.  Roedd hyn yn arbennig o ddiddorol, gan fod cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad eleni yn cael ei chynnal yn ninas Accra. Yn sgil y ffaith bod Senedd Ghana yn trafod Bil gwrth-LHDTC+ mewn cyd-destun domestig, roedd yn ymddangos bod rôl i Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+ yn y cyd-destun hwnnw.

Daeth y thema hon i'r amlwg hefyd yn ystod y sesiwn a gynhaliwyd yn y prynhawn, sef sesiwn bord gron a drefnwyd gan y Cawcws Cydraddoldeb Byd-eang ar gyfer deddfwyr y Gymanwlad, o dan y teitl: "Beth arall y gall y Gymanwlad ei wneud i hyrwyddo hawliau LHDTC+?" Roedd y sesiwn honno'n agored i ddeddfwyr yn unig. Ei diben oedd hwyluso trafodaeth a rhannu arfer gorau ynghylch y broses o gyflawni diwygio deddfwriaethol blaengar, yn ogystal â chytuno ar strategaeth gyffredin ar gyfer newid cynhwysol yn y Gymanwlad. Mae'r gwaith y mae rhai gwledydd wedi'i wneud yn y maes hwn yn wirioneddol arloesol, a byddai Cymru'n gallu efelychu rhai o'r syniadau blaengar a drafodwyd.

Roedd y sesiwn a gynhaliwyd fore Gwener wedi’i threfnu gan Ryng-grŵp Senedd Ewrop ar hawliau LHDTRh, o dan y teitl: “Teuluoedd enfys: dyfodol perthnasoedd a chydnabod rhianta ar draws Ewrop”. Yn ystod y Cyfarfod Llawn, trafodwyd ac archwiliwyd ymdrechion amrywiol ar draws gwledydd Ewrop i gyflwyno hawliau partneriaeth a mabwysiadu ar gyfer cyplau LHDT+. Roedd rhan helaeth o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar enghreifftiau llwyddiannus, lle'r oedd newidiadau blaengar wedi'u cyflwyno. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth bellach ar yr enghreifftiau lle'r oedd angen gwneud cynnydd o hyd.

Roeddwn hefyd yn bresennol yn yr ail ddigwyddiad a gynhaliwyd gan y Cawcws Cydraddoldeb Byd-eang, mewn partneriaeth â Rhyng-grŵp LHDT+ Senedd Hwngari, sef “Strategaethau a phrofiadau yn y frwydr dros Gynhwysiant LHDTC+ yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop”. Clywsom gan ddeddfwyr ond hefyd gan ymgyrchwyr ar draws Canolbarth a Dwyrain Ewrop, a rannodd eu straeon personol a’u profiadau o ran eirioli dros hawliau LHDTC+ mewn amgylchiadau anodd. Roedd rhai o'r straeon a rannwyd yn ein hatgoffa o'r sefyllfa amrywiol sy’n bodoli ar draws y cyfandir o ran sut mae gwledydd yn trin dinasyddion LHDTC+. Mae Hwngari wedi cael sgôr o 30 y cant ar fynegai'r enfys. Er gwybodaeth, mae'r Deyrnas Unedig wedi cael sgôr o 53 y cant. Mae'r bwlch rhwng Hwngari a'r DU yn cyfateb i'r bwlch rhwng y DU a dwy o'r tair gwlad uchaf ar y rhestr (sef Gwlad Belg a Denmarc).

Yna, es i sesiwn y Fforwm Seneddol Byd-eang, a gynhaliwyd fore Sadwrn gan Lefarydd Tŷ’r Cynrychiolwyr yng ngwlad Malta, a hynny ar y cyd â'r Cawcws Cydraddoldeb Byd-eang a Seneddwyr dros Weithredu Byd-eang. Pwrpas y digwyddiad oedd dod â’r holl ddeddfwyr a oedd yn bresennol yn nigwyddiad EuroPride at ei gilydd, fel bod cyfle iddynt gwrdd â chydweithwyr o’r un anian ar lawr y Siambr a thrafod strategaethau cyffredin o ran cefnogi cynhwysiant LHDT+ ar raddfa fyd-eang. Yn dilyn hyn, cafwyd sesiwn friffio ar gyfer deddfwyr gan y Cawcws Cydraddoldeb Byd-eang ar Atal HIV yn Ewrop. Cefais i a’r bobl eraill a oedd yn bresennol y data diweddaraf ynghylch strategaethau i atal HIV, eu heffeithiolrwydd, a'r gwersi a ddysgwyd.